

Jeremy Miles AS/MS

**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Welsh Language**



Eich cyf/Your ref P-06-1369
Ein cyf/Our ref JMEEW/05188/24

**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

21 Mai 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr pellach, dyddiedig 11 Ebrill, yn glŷn â'r ddeiseb yn galw am ddefnyddio enwau Cymraeg yn unig ar gyfer lleoedd yng Nghymru.

Mae'ch llythyr yn holi am fanylion ynghylch gwaith yr uned seilwaith ieithyddol mewn perthynas â diogelu enwau lleoedd, ac am yr ymchwil a gomisiynwyd i ddeall mwy am sut mae enwau lleoedd Cymraeg yn newid yng Nghymru.

Fe wnaethom nodi ein camau cychwynnol mewn perthynas ag enwau lleoedd Cymraeg yn ein [Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg](#), a'r llynedd fe wnes i lansio [Polisi Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg](#), a oedd yn amlinellu rôl uned seilwaith ieithyddol newydd yn Llywodraeth Cymru sydd, yn ogystal â chydlynu gwaith ar eiriaduron, termau, corpora ac ati, hefyd yn gyfrifol am ddatblygu camau i warchod enwau lleoedd Cymraeg.

Roedd y ddwy ddogfen uchod yn gosod allan camau cychwynnol mewn perthynas ag enwau lleoedd Cymraeg, yn unol â'n hymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru. Y pennaf yn eu plith oedd cael gafael ar ddata i yrru datblygiadau polisi. Dyna pam ein bod yn sôn yn y [Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg](#) a'r [Polisi Seilwaith Ieithyddol](#) am bwysigrwydd comisiynu ymchwil i ddydsgu rhagor am pam fod enwau lleoedd yn newid. Mae'r gwaith hwnnw ar y gweill.

Ymchwil i enwau lleoedd

Ddechrau 2023, comisiynwyd prosiect ymchwil gan Cadw, ar y cyd â swyddogion Is-adran Cymraeg 2050, gyda'r nod o ganfod ble, sut a pham mae enwau'n newid, faint o enwau sy'n newid neu sydd wedi newid yn ddiweddar, a natur y newidiadau hynny. Nod yr ymchwil yw argymhell opsiynau posibl, ar sail tystiolaeth, ar gyfer gwarchod yr enwau Cymraeg hynny sydd dan fygythiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r mathau canlynol o enwau'n cael eu hystyried:

- Enwau eiddo — gan gynnwys tai, ffermydd ac adeiladau eraill
- Enwau busnes
- Enwau datblygiadau a strydoedd

Roedd enwau topograffig – ar gyfer nodweddion naturiol yn y dirwedd – hefyd yn rhan o'r prosiect ymchwil cychwynnol. Fodd bynnag, am nad oedd modd pennu methodoleg addas o fewn yr amser a'r adnodd a oedd ar gael, sylw cyfyngedig a roddwyd i enwau topograffig er mwyn caniatáu rhoi rhagor o ffocws ar feysydd lle gallai polisïau fod yn fwy effeithiol. Cynhaliwyd yr ymchwil mewn tri cham. Mae camau un a dau eisoes wedi eu cyflawni, sef:

Cam Un – *Deall y sefyllfa bresennol:*

- adolygiad llenyddiaeth i helpu i ddeall y ffactorau sy'n gysylltiedig â newid enwau.
- deall trothwyon yr Arolwg Ordnans a mapiau digidol ar gyfer newid enwau sy'n ymddangos ar fapiau swyddogol, a sut y cesglir y data er mwyn gwneud hyn.
- cysylltu â rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n gweithio yn y maes er mwyn canfod beth yw eu dealltwriaeth o'r materion presennol.

Cam Dau – *Casglu data:*

- cael gafael ar ddata meintiol gan bob awdurdod lleol mewn perthynas â cheisiadau i newid enw eiddo.
- cyfweld â phob awdurdod lleol er mwyn deall:
 - eu polisïau neu ddulliau ar gyfer ymateb i geisiadau i newid enwau, a sut y gweithredir y polisïau hyn yn ymarferol.
 - eu polisïau neu ddulliau ar gyfer enwi datblygiadau/strydoedd newydd.
 - p'un a yw'r polisïau presennol yn effeithiol o safbwynt gwarchod enwau lleoedd Cymraeg.
 - eu canfyddiad o'u rôl a pha mor effeithiol ydyw o safbwynt gwarchod enwau lleoedd Cymraeg, gan gynnwys unrhyw wahaniaethau posibl o safbwynt sut y cyflawnir y rôl gydag unigolion a datblygwyr.
 - tystiolaeth arall mewn perthynas â newid enwau lleoedd.

Cam Tri (sy'n tynnu tua'i derfyn ar hyn o bryd) – *Archwiliad manylach o arferion enwi answyddogol mewn 7 cymuned benodol.*

- ymchwil pellach sy'n cynnwys arolygon mewn 7 lleoliad, arolwg digidol o enwau eiddo ledled Cymru, a dadansoddiad gwyddor data i gymharu cyfeiriadau post swyddogol gyda'r enwau a arddangosir er mwyn canfod newidiadau dros gyfnod o amser.

Cafodd swyddogion gopi o'r adroddiad interim, sy'n disgrifio canfyddiadau cychwynnol camau un a dau, ddechrau Chwefror 2024. Nid yw'r adroddiad interim wedi ei gyhoeddi am y rhagwelir y bydd y data a gesglir yn ystod cam olaf yr ymchwil yn dylanwadu ar gasgliadau ym mhob rhan o'r adroddiad. Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn llywio ein camau nesaf yn y maes hwn, gan gynnwys y rheini a amlinellir yn y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* a *Pholisi Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg*. Rydyn ni'n rhagweld y caiff y canlyniadau eu cyflwyno mewn adroddiad terfynol i'w gyhoeddi erbyn diwedd Mehefin.

Camau eraill a arweinir gan yr Uned Seilwaith

Wrth i ni aros am y canlyniadau ymchwil hynny, rydyn ni'n archwilio beth allwn ni ei wneud yn y tymor byr er mwyn gwarchod enwau Cymraeg yn well. Mae'r rhain yn cynnwys:


- Ystyried y defnydd o gyfamodau (“*covenants*”) i warchod enwau tai.
- Ystyried y defnydd o becynnau trosglwyddo eiddo (“*conveyancing*”) fel ffordd o godi ymwybyddiaeth o werth enw eiddo penodol.

- Ry'n ni wrthi'n datblygu canllawiau ynghylch sut i ddefnyddio enwau Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y we – a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg; ry'n ni hefyd wrthi'n ystyried canllawiau i helpu pobl i gasglu enwau lleoedd Cymraeg nad ydyn nhw eisoes ar fapiau a'u cofnodi. Y nod fydd rhannu'r canllawiau hyn yn eang gyda chyrrff a sefydliadau eraill fel bod modd eu haddasu at eu dibenion hwy.
- Rydyn ni wedi sefydlu Fforwm Sirol Enwau Lleoedd gyda chynghorau Gwynedd, Môn, Ceredigion a Sir Gâr gyda'r nod o:
 - rannu gwybodaeth
 - canfod bylchau yn y ffordd o ymdrin ag enwau lleoedd, a chyfleoedd i gydweithio
 - cefnogi ein gilydd i geisio canfod datrysiadau ymarferol i atal enwau Cymraeg rhag cael eu disodli
 - rhannu arferion da, fel bod enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio mewn un sefydliad yn gallu cael eu mabwysiadu, lle bo'n briodol, mewn sefydliad arall.

Mae addysg a chodi ymwybyddiaeth yn rhan o'r darlun hefyd. Creu balchder, fel bod pobl eisiau cadw neu roi enwau Cymraeg ar eu tai, ffermydd neu unrhyw eiddo arall. Yn hyn o beth, ymyrraeth arall yw'r Cynllun Llysgenhadon Diwylliannol. Mae'r *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* yn cynnwys nifer o ymyraethau i gefnogi cymunedau Cymraeg sy'n dioddef o effaith ail gartrefi er mwyn eu cefnogi i ffynnu drwy ddulliau gwahanol, megis cymunedau yn perchnogi a gwireddu cynlluniau yn unol â'u hanghenion. Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r ymyraethau hyn, daeth yn amlwg fod galw am llysgenhadon diwylliannol gwirfoddol, a bod angen hyfforddiant arbenigol ar sut i gynrychioli hanes diwylliannol a chymdeithasol.

Ar Ddydd Gŵyl Dewi, fe wnes i lansio'r Cynllun Llysgenhadon Diwylliannol, sy'n rhan o blatfform Llysgenhadon Cymru. Y nod yw annog unigolion, busnesau a sefydliadau y trydydd sector ledled Cymru i ddilyn y modiwl er mwyn dod yn rhan o'r rhwydwaith, sy'n mynd ati i rannu'r wybodaeth maent yn ei dysgu gydag ymwelwyr, eu cymdogion a'r gymuned ehangach. O dan y cynllun hwn, rydyn ni'n datblygu modiwl ynghylch enwau lleoedd. Ar hyn o'r bryd, rydyn ni wrthi'n ysgrifennu cynnwys lefel arian ac aur, felly bydd gwybodaeth am sut i gasglu enwau lleoedd ar gael yn fuan.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg
 Cabinet Secretary for Economy, Energy and Welsh Language